Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles
Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools

# Safonau Gofynnol Cenedlaethol Arfaethedig ar gyfer Ysgolion sy'n Hybu Iechyd a Llesiant yng Nghymru

Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles
Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools

Parthau cydran

22 Safonau gofynnol

## Arweinyddiaeth, ymrwymiad a llywodraethu

Gall ein hysgol arddangos arweinyddiaeth, ymrwymiad a llywodraethiant effeithiol mewn perthynas â dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd a llesiant **A1**

Gall ein hysgol arddangos dulliau effeithiol o gynllunio a chydgysylltu gweithgareddau i ymwreiddio dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd a llesiant **A2**

Gall ein hysgol arddangos sut y mae'n gweithio gyda phartneriaid i gynllunio ac ymwreiddio dull ysgol gyfan ac mae'n bartner gweithgar o fewn dull system ehangach ar gyfer iechyd a llesiant **A3**

Mae ein hysgol yn datblygu ac yn ymwreiddio amrywiaeth o bolisïau ac arferion priodol i gefnogi dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd a llesiant **A4**

## Deall angen a gwerthuso camau gweithredu

Mae ein hysgol yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a data i ddeall a chynllunio ar gyfer anghenion iechyd a llesiant cymuned yr ysgol **B1**

Gall ein hysgol nodi a disgrifio anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr a all fod mewn mwy o berygl o brofi deilliannau iechyd a llesiant gwael **B2**

Mae ein hysgol yn defnyddio dulliau monitro a gwerthuso cadarn i ddeall effaith y blaenoriaethau a nodwyd a'r cynnydd a wnaed yn eu herbyn, gan addasu ein dulliau yn ôl yr angen **B3**

## Cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu

Gall ein hysgol arddangos bod cymuned gyfan yr ysgol yn ymgysylltu ac yn cymryd rhan mewn hybu iechyd a llesiant **C1**

Mae cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol o fewn ac oddi wrth ein hysgol yn arddangos ein hymrwymiad i hybu iechyd a llesiant da **C2**

## Y Gweithlu

Gall ein hysgol arddangos sut mae iechyd a llesiant y gweithlu'n cael ei hybu a'i warchod **D1**

Mae ein hysgol yn cefnogi'r staff drwy ddysgu proffesiynol priodol i ddatblygu a chynnal y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni eu rôl iechyd a diogelwch **D2**

## Diwylliant ac amgylchedd yr ysgol

Gall ein hysgol arddangos sut y mae'n cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau cadarnhaol ymhlith cymuned gyfan yr ysgol ac yn eu meithrin **E1**

Mae ein hysgol yn darparu amrywiaeth o fannau diogel a chroesawgar sy'n diogelu a hybu iechyd a llesiant **E2**

Mae amgylchedd ein hysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu ymddygiad personol iach **E3**

Mae ein hysgol yn defnyddio diwrnod estynedig cyfan yr ysgol i greu cyfleoedd i fodelu a datblygu arferion iach **E4**

## Y Cwricwlwm

Mae ein hysgol yn deall ac yn gwerthfawrogi cyfraniad dull ysgol gyfan ar gyfer cyflawni'r cwricwlwm i Gymru **F1**

Mae ein hysgol yn darparu profiadau dysgu cadarnhaol a dilys sy'n sicrhau diddordeb y dysgwyr ac yn galluogi pawb i ymgysylltu â gweithgaredd hybu iechyd a'i werthfawrogi **F2**

Mae ein hysgol yn darparu cwricwlwm iechyd a llesiant cadarnhaol, cynhwysol, sy'n ymateb i'r rhyweddau, sy'n seiliedig ar hawliau a thystiolaeth lle mae rhagfarn bersonol yn cael ei osgoi **F3**

## Gwasanaethau cymorth a chefnogaeth

Anogir pobl i geisio cymorth yn ein hysgol a chaiff ei fodelu mewn modd cadarnhaol **G1**

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i'r rhai sy'n gofyn am gymorth **G2**

Mae ein hysgol yn cydweithio â gwasanaethau a darparwyr allanol i ateb anghenion cymuned yr ysgol. **G3**

Mae gan ein hysgol y dulliau ar waith i nodi a gweithio gydag eraill i ateb anghenion dysgwyr unigol a'u teuluoedd. **G4**

Parthau cydran

22 Safonau gofynnol

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales